# Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 10 Mehefin 2011
# Answers to the Written Assembly Questions for answer on 10 June 2011

*Cyhoeddir atebion yn yr iaith y'u darparwyd, gyda chyfieithiad Saesneg o atebion yn y Gymraeg. Answers are published in the language in which they are provided, with a translation into English of responses provided in Welsh.*

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant/signifies that the Member has declared an interest.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg/signifies that the question was tabled in Welsh.*

**Cynnwys**
**Contents**


2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services

***Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***
***To ask the Minister for Health and Social Services***

**Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** A oes unrhyw awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gosod pobl ag anableddau dysgu mewn cartrefi y tu allan i Gymru sydd yng ngofal cwmni Castlebeck, neu yng ngofal unrhyw gwmni sy'n gysylltiedig â Castlebeck ac, os oes, pa gamau mae'r awdurdodau lleol hynny'n eu cymryd i sicrhau gofal o'r safon uchaf. (WAQ57454) W

**Llyr Huws Gruffydd (North Wales):** Have any local authorities in Wales placed people with learning difficulties in homes outside Wales for which Castlebeck, or any company linked to Castlebeck, is responsible, and if so, what steps are those local authorities taking to ensure the highest standard of care. (WAQ57454) W

**Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** A oes gan Gyngor Gofal Cymru unrhyw rôl o ran archwilio cartrefi y tu allan i Gymru lle mae pobl o Gymru wedi eu cartrefu. (WAQ57455) W

**Llyr Huws Gruffydd (North Wales):** Does the Care Council for Wales play any role in inspecting homes outside Wales where people from Wales have been placed. (WAQ57455) W

***Derbyniwyd ateb i'w gyhoeddi ar 15 Mehefin 2011***
***Answer received for publication on 15 June 2011***

**Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Rwy'n rhannu'r pryderon sydd gan bawb ohonom ynglŷn â'r cam-drin y tynnwyd sylw ato yn rhaglen Panorama. Mae trin pobl agored i niwed yn y fath fodd yn hollol annerbyniol.

Rydyn ni'n ymwybodol o bobl o Gymru a gafodd eu rhoi, ar wahanol adegau, mewn cartrefi o eiddo Castlebeck neu ei is-gwmnïau. Rwyf wrthi'n ymchwilio ymhellach i'r hyn sydd wedi digwydd, a beth yw goblygiadau hynny i ddefnyddwyr o Gymru ac i'r gwasanaethau a ddarperir drwy'r cwmni hwn. Byddaf yn gwneud datganiad llafar ar y mater hwn cyn gynted ag y bo modd.

Mae Cyngor Gofal Cymru yn gyfrifol am reoleiddio gweithwyr cymdeithasol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol, ynghyd â rhai staff yn y maes gofal cymdeithasol. Nid yw'r Cyngor yn ymwneud â rheoleiddio nag archwilio'r gwasanaethau gofal. Cyfrifoldeb Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) yw hynny.

Mae'r Arolygiaeth yn gyfrifol am archwilio cartrefi gofal yng Nghymru. Yn Lloegr, caiff cartrefi gofal eu harchwilio gan y Care Quality Commission. Mae hynny'n cynnwys cartrefi gofal yn Lloegr lle mae pobl o Gymru yn byw.

**The Deputy Minister for Children and Social Services (Gwenda Thomas):** I share the concerns that we all have about the abuse that was identified in the Panorama programme. Treatment of vulnerable people like this just cannot be tolerated.

We are aware of people from Wales who were at some point placed in homes owned by Castlebeck or its subsidiaries. I am undertaking further investigations in to what has happened and the implications for service users from Wales and services provided through this company. I will be making an oral statement on this matter as soon as possible.

The Care Council for Wales is responsible for the regulation of social workers, social work students and certain social care staff.  It is not involved in the regulation or inspection of care services.  That is the responsibility of Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW).
CSSIW is responsible for inspecting care homes within Wales.  Care homes in England are inspected by the Care Quality Commission which includes Care homes in England within which people from Wales are living."